



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

OPSIWN COSTAU SYMLACH Nodiadau Cyfarwyddyd



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

COSTAU YN RHAGLENNI 2007–2013

Yn rhaglen 2007–2013 disgrifiwyd a diffiniwyd costau rhaglenni fel a ganlyn:

Costau Gwirioneddol

1. Costau sy'n symiau gwirioneddol sydd wedi'u gwario ar nwyddau a/neu wasanaethau a oedd yn angenrheidiol i gyflawni un prosiect yn unig:
 - Enghraifft - prynu darn o gyfarpar
 - Tystiolaeth – anfonebau a chyfriflenni banc.
2. Costau sy'n symiau amcangyfrifedig, a bennwyd gan ddefnyddio dull dosrannu, sydd wedi'u gwario ac sy'n ymwneud â chyflawni prosiect:
 - Enghraifft – costau staff lle mae'r unigolyn yn gweithio ar fwy nag un prosiect.
 - Tystiolaeth - dull dosrannu wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â manylion o daflenni amser, slipiau cyflog neu gyflogres a chyfriflenni banc

Gorbenion

3. Costau sy'n symiau deilliedig fel arfer, a bennwyd gan ddefnyddio dull dosrannu, sydd wedi'u gwario gan noddwr y prosiect sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect:
 - Enghraifft – costau adeilad fel rhent, trethi, costau cyfleustodau, costau ffôn a gwasanaethau glanhau.
 - Tystiolaeth - dull dosrannu wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â manylion o anfonebau neu filiau a chyfriflenni banc.

Gorbenion Rheoli

4. Costau sy'n symiau deilliedig fel arfer, a bennwyd gan ddefnyddio dull dosrannu, sydd wedi'u gwario gan noddwr y prosiect sy'n cefnogi'r gwaith o reoli'r prosiect a'i gyflawni:
 - Enghraifft - costau staff ar gyfer personél o'r tîm cyllid sy'n prosesu hawliadau neu gostau staff sy'n ymwneud â rheoli'r sefydliad yn gyffredinol.
 - Tystiolaeth - dull dosrannu wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â manylion o daflenni amser, slipiau cyflog neu gyflogres a chyfriflenni banc.

COSTAU YN RHAGLENNI 2014-2020

Yn rhaglen 2014 – 2020 disgrifir a diffinnir costau'r rhaglen fel a ganlyn:

Costau Uniongyrchol

5. Costau sy'n union symiau y gellir eu mesur yn gywir ac sy'n ymwneud yn benodol ag un prosiect yn unig:

- Enghraifft – trydan a fesurir yn unigol ar gyfer un swyddfa a ddefnyddir yn unswydd ar gyfer y prosiect.
Gellir mesur y gost yn gywir a'i dyrannu i un prosiect yn unig.
- Tystiolaeth – anfonebau a chyfriflenni banc.

6. Nid yw Costau Uniongyrchol yn gostau diffiniedig fel rhent, trethi, trydan, nwy, band eang, biliau ffôn neu gostau penodol eraill.

Dyma unrhyw gost y gellir ei mesur yn gywir mewn rhyw fodd, sy'n golygu bod modd pennu swm mesuradwy i un prosiect.

Mae costau teithio a chynhaliath yn enghreifftiau o Gostau Uniongyrchol. Rhaid hawlio Costau Uniongyrchol – a elwir yn Gostau Gwirioneddol hefyd – ar sail gwariant a dalwyd wedi'u hategu gan y dystiolaeth ddogfennol arferol.

Costau Anuniongyrchol

7. Costau sy'n symiau na ellir eu mesur yn gywir na'u hadnabod yn benodol a'u dyrannu i un prosiect yn unig:

- Enghraifft - Mae pedair desg mewn swyddfa, gydag un yn cael ei defnyddio ar gyfer y prosiect. Mae'r rhent a'r holl filiau treth, trydan, nwy, band-eang a ffôn yn cael eu dosrannu fel bod 25% o'r costau hyn yn cael eu cynnwys fel costau cymwys y prosiect

8. Costau Anuniongyrchol yw pob math neu gategori o wariant na ellir ei fesur yn gywir na'i hadnabod yn benodol a'i ddyrannu i un prosiect. Ni ellir defnyddio Costau Anuniongyrchol fel ffordd o hawlio gwariant am brosiect - rhaid defnyddio'r Opsiwn Costau Symlach – Cyfradd Safonol (gweler isod) ar gyfer hyn.

Eithriad i'r diffiniad o Gost Uniongyrchol

9. Byddid yn delio â chostau sydd wedi'u gwario ar brosiect unigol wedi'i ariannu gan yr UE fel Cost Uniongyrchol, ond nid oes bwriad i gosbi buddiolwr sy'n rhedeg mwy nag un prosiect wedi'i ariannu gan yr UE.

Felly, gellir trin costau sydd wedi'u gwario sydd o fudd i fwy nag un prosiect wedi'i ariannu gan yr UE (ond nad ydynt o fudd i unrhyw weithgarwch nas ariennir gan yr UE) fel Costau Uniongyrchol, a gellir eu dyrannu fel swm pro-rata i'r prosiectau maent yn ymwneud â nhw.

10. Rhaid darparu tystiolaeth i ddangos y bydd y costau llawn yn cael eu cynnwysmewn prosiectau sydd wedi'u hariannu'n llwyr gan yr UE yn ystod y cam ymgeisio. Cyn i'r prosiect ddechrau, rhaid cytuno ar y fethodoleg ar gyfer dyrannu. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r modd y cymhwyswyd y dull dyrannu gyda'r dogfennau ategol arferol fel taflenni amser, gwybodaeth y gyflogres, cyfriflenni banc a dogfennau tebyg eraill.

Y prif ystyriaethau archwilio yw tystiolaeth i brofi nad oes mwy na 100% o'r gost yn cael ei chodi yn ei chrynswth a thystiolaeth addas i ddangos bod y budd yn ymwneud yn unswydd â phrosiectau wedi'u hariannu gan yr UE ac nid â gwaith y buddiolwr nad yw'n gysylltiedig â'r UE.

Os oes unrhyw elfen o fudd nad yw wedi'i hariannu gan yr UE, yna mae'r gost gyfan yn cael ei hystyried yn Gost Anuniongyrchol.

OPSIYNAU COSTAU SYMLACH

11. Cynigir dau fath o Opsiynau Costau Symlach ar hyn o bryd ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020–Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF):

- Cost Uned
- Cyfradd Safonol

Cost Uned

12. Bydd noddwr y prosiect yn derbyn swm penodol am bob uned. Gallai'r unedau hynny fod am gyflwyno gweithgaredd (er enghraifft, amser staff ar sail cyfradd fesul awr) neu am ddarparu allbwn (er enghraifft, pob lle hyfforddi a ddarperir).

Caiff y prosiect ei gymeradwyo ar sail uchafswm yr unedau y gellir eu hawlio. Cyfrifir cyfanswm cost y prosiect drwy luosi uchafswm nifer yr unedau â'r Gost Uned.

Y Gost Uned fwyaf arferol ar gyfer EAFRD a EMFF fydd ar gyfer amser staff yn seiliedig ar gyfradd fesur awr.

Mae'r dull o gyfrifo gwerth Cost Uned ar gyfer amser staff sy'n seiliedig ar gyfradd fesul awr yn cael ei ddisgrifio yn Rheoliadau CE:

$$\text{£ yr awr} = \frac{\text{costau cyflogaeth gros blynyddol diweddaraf sydd wedi'u cofnodi}}{\text{oriau cynhyrchiol blynyddol safonedig}}$$

Costau cyflogaeth gros blynyddol diweddaraf sydd wedi'u cofnodi

13. Cyflog blynyddol y gweithiwr yw'r costau hyn yn ogystal â'r holl gyfraniadau statudol ychwanegol gan y cyflogwr fel Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn gan gynnwys unrhyw daliadau contract eraill fel lwfans defnyddiwr car.
14. Rhaid cyfrifo gwerth y Gost Uned (£ yr awr), a thystiolaeth ohono, cyn y caiff y prosiect ei gymeradwyo. Dylai'r dystiolaeth i'w darparu gynnwys disgrifiad swydd; asesiad graddio swydd (os yw'n berthnasol); graddfeydd cyflog; contract cyflogaeth.
Gellid cynnwys gwybodaeth arall os yw ymarfer recriwtio i'w gynnal.
Gallai'r dystiolaeth hefyd gynnwys manylion cyflogres o'r flwyddyn flaenorol os caiff staff presennol eu dyrannu i'r prosiect.

Oriau cynhyrchiol blynyddol safonedig

15. Mae dau opsiwn ar gael er mwyn pennu'r gwerth hwn:

1. Gellir defnyddio gwerth penodedig o **1,720 awr** heb fod angen tystiolaeth ddogfennol a chymeradwyaeth flaenorol.
2. Penderfynu ar nifer yr oriau cynhyrchiol mewn blwyddyn drwy gymryd nifer yr oriau i'w gweithio dan gontract a didynnu nifer yr oriau ar gyfer gwyliau cyhoeddus a gwyliau blynyddol.

16. Rhaid cael tystiolaeth ar gyfer yr ail opsiwn cyn y bydd y prosiect yn cael ei gymeradwyo.

Gallai'r dystiolaeth i'w chyflwyno fod un ai'n gopi o'r contract cyflogaeth sy'n egluro'r telerau cyflogaeth a nifer yr oriau disgwylidig i'w gweithio ar gyfer aelodau staff newydd, neu, yr oriau staff gwirioneddol sydd wedi'u gweithio yn y flwyddyn flaenorol os yw staff sy'n cael eu cyflogi eisoes yn cael eu dyrannu i'r prosiect.

Ar gyfer contractau rhan amser, gellir cyfrifo nifer yr oriau cynhyrchiol naill ai drwy ddefnyddio gwir nifer yr oriau i'w gweithio dan y contract neu nifer yr oriau amser llawn y mae'r contract yn seiliedig arno.

Cyfradd Safonol

17. Bydd noddwr y prosiect yn derbyn swm ychwanegol a gyfrifir fel canran benodedig o rai costau eraill.
18. O ran EAFRD a EMFF, mae'r unig opsiwn Cyfradd Safonol sydd ar gael wedi'i osod ar 15% o gostau staff.

Ni fydd y swm hwn yn destun craffu gan broses archwilio yn y dyfodol.

Bydd archwilio'n seiliedig ar y dystiolaeth a'r dull ar gyfer pennu costau staff cyn y caiff y prosiect ei gymeradwyo.

Mae'r opsiwn Cyfradd Safonol 15% yn cael ei nodi yn Erthygl 68(1b) o Reoliad 1303/2013 yr UE.

DEFNYDDIO COSTAU UNIONGYRCHOL A CHOSTAU SYMLACH MEWN PROSIECT

19. Ar gyfer categori penodol o gostau mewn prosiect, dim ond un dull y mae modd ei ddefnyddio; naill ai Cost Uniongyrchol neu Gost Symlach.

Mae modd diffinio'r costau sy'n gysylltiedig â chyflogi pobl wrth gyflawni prosiect dan un o'r ddau gategori canlynol:

- Costau staff fel cyflog, pensiwn ac unrhyw lwfansau uniongyrchol
- Costau Adnoddau Dynol fel tâl dileu swydd, tâl absenoldeb oherwydd salwch hirdymor, tâl mamolaeth a thadolaeth

Gellir pennu Costau Staff gan ddefnyddio naill ai'r dull Cost Uniongyrchol (tystiolaeth - gwybodaeth gyflogres wedi'i chysoni â chyfriflenni banc) neu'r dull Opsiwn Cost Symlach (tystiolaeth - taflenni amser).

Dim ond drwy'r dull Costau Uniongyrchol y gellir pennu Costau Adnoddau Dynol (gan nad oes dim oriau cynhyrchiol i'w cofnodi ar daflenni amser). Gall noddwr prosiect ddefnyddio unrhyw un o'r ddau ddull mewn prosiectau gwahanol.

Gall noddwr prosiect ddefnyddio dull gwahanol mewn prosiectau gwahanol sy'n rhedeg ar yr un pryd.

20. Rhaid i'r ffordd o gyfrifo Cost Uned yr Opsiwn Cost Symlach gael ei chymeradwyo gan y Rheolwr Gwerthuso Ariannol, Uned Rheoli'r Cynllun cyn y caiff y prosiect ei gymeradwyo. (Tîm Cyllid Rhaglenni Gwledig ar gyfer prosiectau Cymorth Technegol)

ENGHREIFFTIAU

Opsiwn Costau Symlach - Cost Uned - Cyfraddau fesul Awr Staff - Enghraifft 1

Gwybodaeth gefndir

Mae gan sefydliad gontract cyflogaeth safonol yn seiliedig ar 40 awr yr wythnos.

Mae aelod o'r staff yn cael ei gyflogi ar gyflog sylfaenol o £20,000 y flwyddyn.

Mae'r gweithiwr hwnnw'n cael ei gyflogi i weithio'n llawn amser ar brosiect.

Cam 1 Cyfrifo'r costau cyflogaeth gros blyneddol: Cyflog

£20,000

ynghyd â chyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol y
Cyflogwr a chyfraniad pensiwn cyflogwr o 2%

£20,000 + £1,660 + £400 = **£22,060**

Cam 2 Cyfrifo'r gyfradd sefydlog fesul awr:

£22,062 / 1,720 = **£12.83**

Cam 3 Pennu faint o oriau yn y flwyddyn a dreulir yn cyflawni'r prosiect:

52 wythnos @ 40 awr yr wythnos = 2,080 awr ar y mwyaf ar gael
Llai 5 wythnos o wyliau (5 @ 40 awr = 200 awr)

Llai 8 Gŵyl y Banc (8 @ 8 awr = 64 awr)

Cyfanswm yr oriau ar gyfer cyflawni'r prosiect = **1,816**

Cam 4 Cyfrifo cyfanswm y taliad sy'n ddyledus ar sail Costau Symlach:

1,816 x £12.83 = **£23,299**

Nodiadau

Defnyddir taflenni amser fel tystiolaeth o amser staff

Cyflwynir hawliadau am gyfanswm yr oriau prosiect a weithiwyd yn y cyfnod hwnnw.
(Defnyddir cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol cyflogwr o 8.3% fel enghraifft yn
unig, ond bydd yr union ffigurau'n amrywio)

Opsiwn Costau Symlach - Cost Uned - Cyfraddau fesul Awr Staff - Enghraifft 2

Gwybodaeth gefndir

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru–Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020
Opsiwn Costau Symlach–Nodiadau Cyfarwyddyd

Mae gan sefydliad gontract cyflogaeth safonol yn seiliedig ar 37 awr yr wythnos.

Mae aelod o'r staff yn cael ei gyflogi ar gyfradd o £7.68 yr awr.

Mae'r gweithiwr hwnnw'n cael ei gyflogi ar gontract 21 awr yr wythnos.

Cam 1 Cyfrifo'r costau cyflogaeth gros blynyddol:

$£7.68 \times 37 \times 52 = £14,776$ cyflog cyfwerth blynyddol
ynghyd â chyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol y
Cyflogwr a chyfraniad pensiwn cyflogwr o 2%

$£14,776 + £1,226 + £296 = \mathbf{£16,298}$

Cam 2 Cyfrifo'r gyfradd sefydlog fesul awr:

$£16,298 / 1,720 = \mathbf{£9.48}$

Cam 3 Pennu faint o oriau yn y flwyddyn a dreulir yn cyflawni'r prosiect:

52 wythnos @ 21 awr yr wythnos = 1,092 awr ar y mwyaf ar gael
Llai 5 wythnos o wyliau (5 @ 21 awr = 105 awr)

Llai 8 Gŵyl y Banc (8 @ 4.2 awr = 33.6 awr)

Cyfanswm yr oriau ar gyfer cyflawni'r prosiect = **953.4**

Cam 4 Cyfrifo cyfanswm y taliad sy'n ddyledus ar sail Costau Symlach:

$953.4 \times £9.48 = \mathbf{£9,038}$

Nodiadau

Defnyddir taflenni amser fel tystiolaeth o amser staff

Cyflwynir hawliadau am gyfanswm yr oriau prosiect a weithiwyd yn y cyfnod hwnnw. (Defnyddir cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol cyflogwr o 8.3% fel enghraifft yn unig, ond bydd yr union ffigurau'n amrywio)